21.10.2020

Cyfnod atal y coronafeirws

Annwyl Rieni,

Rwy'n siwr y byddwch wedi clywed y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd cyfnod atal byr yn cael ei gyflwyno ledled Cymru o 6 o'r gloch ddydd Gwener 23ain o Hydref tan ddechrau dydd Llun 9fed Tachwedd mewn ymgais i adennill rheolaeth dros y coronafeirws.

Mae angen cymryd y camau hyn am bythefnos i achub bywydau ac atal y GIG rhag cael ei lethu. Bydd yn golygu bod yn rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn, megis ar gyfer ymarfer corff; a rhaid iddynt beidio ag ymweld ag aelwydydd eraill na chwrdd â phobl eraill nad ydynt yn byw gyda nhw o dan do nac yn yr awyr agored. Ni chaniateir unrhyw gynulliadau yn yr awyr agored, megis gweithgareddau Calan Gaeaf neu Noson Tân Gwyllt, neu weithgareddau eraill sydd wedi'u trefnu.

Cadarnhawyd y bydd ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn gallu ailagor fel arfer ar ôl hanner tymor, ddydd Llun 2ail o Dachwedd.

Hoffwn roi sicrwydd ichi eto fod ein hysgol yn ddiogel rhag COVID a bod gennym weithdrefnau llym a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

Os bydd achos cadarnhaol o COVID-19, cymerir camau ar unwaith, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu i nodi unrhyw unigolion y gall fod angen iddynt hunan-ynysu ac atal unrhyw drosglwyddo o fewn yr ysgol.

Bydd teuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael cymorth ariannol dros y gwyliau hanner tymor. Gwneir taliadau cyn gynted â phosibl, ond gofynnir i chi fod yn amyneddgar gan y bydd yn cymryd amser i'w prosesu.

Mae gwybodaeth lawn am y cyfnod atal ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

Sylweddolaf fod hwn yn gyfnod pryderus i deuluoedd a gwerthfawrogaf eich cydweithrediad yn fawr.

Unwaith eto, diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/

21.10.2020

Coronavirus firebreak

Dear Parents,

I am sure you will have heard the announcement by Welsh Government that a 'fire-break' will be introduced across Wales from 6pm on Friday, October 23rd until the start of Monday, November 9th in a bid to regain control of coronavirus.

This fortnight-long action is needed to save lives and prevent the NHS from being overwhelmed. It will mean that people must stay at home, except for very limited purposes, such as for exercise; and must not visit other households or meet other people they do not live with either indoors or outdoors. No gatherings will be allowed outdoors, such as Halloween or fireworks / Bonfire night or other organised activities.

It was confirmed that primary schools and special schools will be able to re-open as normal after half-term on Monday, November 2nd.

I would again like to reassure you that our school is COVID-secure, and we have strict procedures and health and safety measures in place.

In the event of a positive case of COVID-19, immediate action is taken, and we work closely with the Test, Trace, Protect team to identify any individuals that might need to self-isolate and prevent any transmission within the school.

Families in receipt of free school meals will receive financial support over the half-term holiday. Payments will be made as soon as possible, but you are being asked to be patient as processing will take time.

Full information on the fire-break can be found on the Welsh Government website https://gov.wales/coronavirus-firebreak-frequently-asked-questions

I appreciate that this is an anxious time for families and your co-operation is much appreciated.

Thank you, once again, for your ongoing support.

Yours sincerely,

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/